YR YSTWYLL 3

NEHEMEIA 8:1-3, 5-6, 8-10; SALM 19;
1 CORINTHIAID 12:12-31A; LUC 4:14-21

● Gweddi agoriadol

Arglwydd Dduw, rydym yma heddiw
i wrando ar dy air,
dod â'r gweddïau sydd yn ein calon
ac ymuno mewn cymdeithas.
Siarad â ni drwy'r ysgrythur,
yr emynau, gweddi a myfyrdod.
Rho i ni glustiau i glywed,
calonnau i wrando
a bywydau parod i weithio.

● Moliant

Arweinydd: Mae'r nefoedd yn datgan dy ogoniant
Pawb: A'r ffurfafen yn mynegi gwaith dy ddwylo.

Haul y bore a lleuad y nos,
y goleuni a'r gwres sy'n pweru ein bywyd:

Arweinydd: Mae'r nefoedd yn datgan dy ogoniant
Pawb: A'r ffurfafen yn mynegi gwaith dy ddwylo.

Bryniau tonnog a phen y mynydd,
nant redegog ac eigion dwfn:

Arweinydd: Mae'r nefoedd yn datgan dy ogoniant
Pawb: A'r ffurfafen yn mynegi gwaith dy ddwylo.

Rhua'r taranau a glaw tyner,
cana'r cread gân ei foliant:

Arweinydd: Mae'r nefoedd yn datgan dy ogoniant
Pawb: A'r ffurfafen yn mynegi gwaith dy ddwylo.

● **Cyffes**
Rwyt yn siarad â ni mewn llawer ffordd,
drwy'r gwynt sy'n rhuthro
neu'r sibrwd tawel,
yng ngair ysgrythur
neu drwy dy ras.
A ninnau wedyn yn canfod llawer ffordd
i glywed llais
taer y byd
yn dod o hyd i ni
a chymryd dy le.

Maddau freuder ein ffydd.
Caniatâ i ni glywed dy lais
uwch dwndwr ein byd,
amgyffred y gwahaniaeth
a'th ddilyn di yn unig.

● Diolch

Dduw hael, am bopeth sy'n ein cynnal,
aer i'w anadlu, gwres a goleuni,
bwyd i'w fwyta, dŵr i'w yfed,
cyflwynwn yn ddiolchgar ein caneuon a'n moliant.

Dduw sanctaidd, am dy Ysbryd sy'n ein clymu,
un bobl, un corff
wedi'u nerthu i wasanaethu,
cyflwynwn yn ddiolchgar ein dwylo a'n traed.

Dduw Achubwr, am dy gariad sy'n ein hysbrydoli,
iachâd a chyflawnder,
rhyddid a chyfiawnder,
cyflwynwn yn ddiolchgar ein calonnau a'n heneidiau.